Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Caereinion,<br>Llanfair Caereinion,<br>Y Trallwng,<br>Powys,<br>SY21 0HW

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Uwchradd Caereinion yn ysgol gymysg, gymunedol, naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 mlwydd oed, wedi ei lleoli yn nhref fechan Llanfair Caereinion, a chaiff ei chynnal gan Awdurdod Unedol Powys. Mae 545 o ddisgyblion ar y gofrestr, o'i gymharu â 597 adeg yr arolygiad diwethaf yn Hydref 2007. Mae 95 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Daw mwyafrif y disgyblion o'r wyth ysgol gynradd yn nalgylch gwledig yr ysgol. Daw disgyblion eraill sy'n dymuno cael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg o'r Trallwng a'r Drenewydd. Saesneg yw'r brif iaith a siaredir yng nghartrefi 65% o'r disgyblion. Mae pum deg pedwar y cant o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Nid yw'r dalgylch yn un sydd yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais. Mae gan saith pwynt pump y cant (7.5%) o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ffigur sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.7%.

Mae disgyblion yn cynrychioli'r ystod lawn o allu ac mae gan ryw 15% ohonynt angen addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19.2%. Mae gan un y cant o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5% ar gyfer Cymru gyfan.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2008 ar ôl bod yn bennaeth dros dro er Ionawr 2007. Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y pennaeth, y dirprwy bennaeth, a dau bennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Caereinion yn 2013 14 yw £4,487. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd ym Mhowys yw £4,966 a'r isafswm yw £3,877. Mae'r ysgol yn y trydydd safle o'r 13 ysgol uwchradd ym Mhowys o ran y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- y gwelliant ym mherfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3;
- y cynnydd a wneir gan ddisgyblion mewn llawer o wersi;
- y ffaith fod bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod ganddynt agwedd gadarnhaol at eu gwaith;
- y berthynas waith fuddiol rhwng athrawon a disgyblion; a'r
- partneriaethau llwyddiannus gydag ysgolion cynradd a'r gymuned.

Fodd bynnag, mae'r perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 islaw cyfartaledd ysgolion tebyg;
- mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4 islaw disgwyliadau hefyd;
- ni chaiff strategaethau ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd eu cymhwyso'n gyson ar draws yr holl bynciau; ac
- mewn lleiafrif o wersi, ni chaiff gwaith disgyblion ei weddu'n dda i wahanol alluoedd y disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae nodau ac amcanion yr ysgol yn glir ac yn rhoi pwyslais cryf ar gynnydd a lles disgyblion;
- caiff gweledigaeth yr ysgol ei chyfleu yn effeithiol i ddisgyblion, staff a rhieni;
- mae'r llywodraethwyr yn rhoi synnwyr da o gyfeiriad i waith yr ysgol ac maent yn ffrindiau beirniadol effeithiol;
- nid yw trefniadau rheoli llinell yn ddigon trylwyr;
- nid yw'r camau gweithredu arfaethedig a nodwyd yn y cynllun gwella ysgol bob amser yn glir; ac
- nid yw meini prawf llwyddo yn y cynllun gwella ysgol yn ddigon trachywir a mesuradwy.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4 a lleihau'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn

A2 Gwella presenoldeb

A3 Gwella ansawdd yr addysgu, asesu ac olrhain perfformiad disgyblion

A4 Gwella cysondeb hunanarfarnu ar draws yr ysgol a sicrhau bod cynllunio gwelliant yn cynnwys deilliannau clir a mesuradwy

A5 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel i gynnig trylwyredd gwell a sicrhau gwelliannau mewn safonau.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion bron ym mhob dangosydd allweddol wedi dirywio dros y pedair blynedd diwethaf, ac yn 2013, mae'r perfformiad islaw cyfartaledd ysgolion tebyg. Mae cynnydd o gyfnodau allweddol blaenorol yn is na'r disgwyl ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ac mae uwchlaw cyfartaledd ysgolion tebyg.

Ni adawodd unrhyw ddisgybl yr ysgol heb gymhwyster dros y tair blynedd diwethaf.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad disgyblion yn gyffredinol yn foddhaol, er bod cyfran fwy o ddisgyblion yn cael graddau A*-C mewn Safon Uwch na mewn ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn llai na chyfartaledd ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, nid yw bechgyn yn perfformio cystal ag y maent mewn ysgolion eraill tebyg ym mhob dangosydd ansawdd. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n debyg i ddisgwyliadau yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion ymhell islaw perfformiad disgyblion mewn ysgolion eraill tebyg. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn gyffredinol ac yn bodloni disgwyliadau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Mewn llawer o wersi, maent yn datblygu eu gwybodaeth bynciol, eu medrau a'u dealltwriaeth yn dda. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn cynnig atebion cywir a datblygedig i gwestiynau eu hathrawon. Mewn llawer o wersi, mae gan ddisgyblion amgyffrediad cadarn o derminoleg sy'n benodol i bwnc. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol fel unigolion ac mewn grwpiau, ac maent yn rhannu eu safbwyntiau gyda'u cyfoedion mewn trafodaethau bywiog a chynhyrchiol. Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn dangos blaengaredd ac yn gwneud cynnydd da iawn yn eu meddwl a'u dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus ac maent yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn llwyddiannus trwy ddefnyddio amrywiaeth o destunau perthnasol. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol, gydag oedran darllen sydd islaw eu hoedran cronolegol, yn gwneud cynnydd da erbyn diwedd cyfnod allweddol 3.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at amrywiaeth o ddibenion, gan ddefnyddio sillafu ac atalnodi cywir ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o

ddisgyblion yn datblygu eu hysgrifennu estynedig yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn ystod o bynciau. Yn y pynciau hyn, maent yn dangos amgyffrediad cymwys o gyfrifiadau sylfaenol fel lluosi a rhannu ac maent yn deall yn dda sut i ddefnyddio data i lunio graffiau a dehongli patrymau mewn data.

Mae’r cynnydd a wneir gan lawer o ddisgyblion yn y Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn deall ac yn siarad Cymraeg yn dda. Mae’r rhai sy’n dilyn Cymraeg mamiaith mewn TGAU yn perfformio’n well na’r rhai mewn ysgolion tebyg.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu gwaith. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol ac maent yn teimlo bod yr ysgol yn delio’n dda â’r achosion prin o fwlio y rhoddir gwybod amdanynt.

Mae cyfraddau cyfranogiad uchel yn ‘rhaglen 5x60’ yr ysgol ac mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon. O ganlyniad i hyn a gwaith effeithiol grŵp gweithredu’r ysgol ar gyfer maeth, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill dealltwriaeth gadarn o sut i fyw bywyd iach.

Mae’r cyngor ysgol yn dechrau cael dylanwad addas ar addysgu ac mae wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr i benderfyniadau ar fywyd ysgol, fel ailfodelu ffreutur yr ysgol. Mae disgyblion yn cyfrannu’n llwyddiannus at fywyd y gymuned hefyd, er enghraifft trwy gefnogi digwyddiadau lleol a gweithgareddau ysgolion clwstwr cynradd. Maent yn dangos gofal a phryder am bobl eraill trwy eu gwaith elusennol helaeth.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae’r ffigurau hyn islaw disgwyliadau ac yn golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n bodloni gofynion statudol. Ceir ystod addas o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4. Mae cydweithredu effeithiol gyda dwy ysgol leol a Choleg Powys wedi ehangu’r dewis o gyrsiau ôl-16. Fodd bynnag, ychydig iawn o’r cyrsiau hyn yn unig a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn y cyrsiau o’u dewis ac mae cynllunio’r ysgol ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion y chweched dosbarth ddatblygu eu medrau. Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, ac mae nifer dda o ddisgyblion yn eu mynychu.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â'i hysgolion cynradd partner i sicrhau bod cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n addas ar brofiadau blaenorol disgyblion. Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn y rhan fwyaf o bynciau Hefyd maent yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion mewn ystod briodol o bynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol tuag at fodloni gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion mewn grwpiau ymyrraeth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn elfen gref yng ngwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae gwyddoniaeth, daearyddiaeth ac addysg bersonol a chymdeithasol yn rhoi cyfleoedd priodol i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o sut i fyw'n gynaliadwy.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion yn cyfrannu tuag at gynnydd disgyblion mewn llawer o wersi.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae athrawon yn y gwersi hyn yn frwdfrydig ac yn ysbrydoli disgyblion trwy gynllunio creadigol i wneud cynnydd eithriadol.

Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn cynnwys ystod o weithgareddau ysgogol sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd addas. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau treiddgar yn dda i wirio ac ehangu dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o wersi yn heriol, ac maent yn symud yn rhy araf. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn gweddu gwaith yn ddigon agos i anghenion gwahanol alluoedd disgyblion. Yn ychwanegol, nid yw athrawon yn y gwersi hyn yn ymgorffori digon o amrywiaeth mewn dulliau addysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o ran datblygu eu gwybodaeth bynciol a'u medrau. Mae disgyblion sydd ag angen am help ychwanegol yn cael cymorth gwerthfawr gan gynorthwywyr ystafell ddosbarth.

Mae mwyafrif yr athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae ansawdd y marcio yn amrywio gormod. Lleiafrif o athrawon yn unig sy'n rhoi cyngor adeiladol neu dargedau penodol yn gyson i helpu disgyblion i wneud cynnydd.

Mae'r ysgol wedi mireinio'i system ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn ddiweddar. Mae'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i staff, sy'n amlygu cynnydd grwpiau gwahanol o ddisgyblion.

Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â chanfyddiadau'r monitro hwn.

Caiff rhieni ddiweddariadau rheolaidd am gynnydd eu plentyn. Mae'r adroddiadau blynyddol yn fanwl ac yn cynnwys sylwadau buddiol, ac mae'r rhan fwyaf o dargedau ar gyfer gwella yn benodol a defnyddiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda i hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion ac mae'n gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r cwricwlwm a 'rhaglenni 5x 60' yn cynnig cyfleoedd amrywiol i bob disgybl ddysgu ynghylch sut i fyw bywyd iach.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar lle mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac mae'n delio'n effeithiol â'r achosion prin o fwlio. Mae'r ysgol yn cynnig rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol, sy'n cysylltu â nifer o sefydliadau allanol i wella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r gymuned. Mae'r rhaglen yn cynnwys arweiniad gwerthfawr ar ddiogelwch ar-lein ar y rhyngrwyd a bwlio seiber. Mae polisïau ymddygiad a gwobrwyo effeithiol yr ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da, ond nid ydynt wedi bod yn ddigon llwyddiannus wrth wella presenoldeb.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr i wella datblygiad cymdeithasol a diwylliannol disgyblion mewn partneriaeth â sefydliadau fel yr Urdd, grwpiau theatr ieuenctid a ffermwyr ifanc. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, gwasanaethau ysgol a chyfnodau dosbarth yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ystyried ffydd ac agweddau ysbrydol ar fywyd.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr disgyblion sy'n trosglwyddo i Flwyddyn 7, ac ar gyfer disgyblion sy'n gwneud dewisiadau pwnc ym Mlynyddoedd 9 ac 11.

Mae ystod eang o wasanaethau cymorth yn gweithio'n effeithiol gyda'r ysgol i sicrhau bod disgyblion sy'n agored i niwed yn gallu manteisio ar ystod gynhwysfawr o strategaethau cymorth i'w helpu i oresgyn eu hanawsterau. Rhoddir hyfforddiant gwerthfawr i fentoriaid cymheiriaid i'w paratoi â'r medrau angenrheidiol i gynnig cymorth defnyddiol i ddisgyblion yn ein Siop Gynghori yn yr Ysgol, 'Oasis' (Our Advice Shop in School).

Gall disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fanteisio ar y cwricwlwm cyfan ac fe gânt eu cefnogi'n dda yn eu datblygiad addysgol ac emosiynol. Caiff cynlluniau addysgol unigol disgyblion eu hadolygu'n rheolaidd trwy ymgynghori â rhieni. Mae'r rhain yn cynnwys targedau priodol ac maent yn cynnwys strategaethau addas i helpu athrawon i sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol a chynhwysol lle caiff disgyblion, rhieni, staff a'r gymuned eu gwerthfawrogi. Caiff disgyblion yr un cyfle i fanteisio ar holl feysydd y ddarpariaeth beth bynnag fo'u hil, eu rhyw, neu'u cefndir neu os oes ganddynt anabledd. Mae'r ysgol yn datblygu gwerthfawrogiad disgyblion o wahanol ddiwylliannau yn dda ac mae'n herio stereoteipiau yn effeithiol.

Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu rheoli a'u cynnal yn dda. Mae coridorau wedi eu haddurno'n dda ac maent yn cynnwys enghreifftiau o waith disgyblion i ddathlu eu cyflawniadau. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu o ansawdd priodol i fodloni anghenion disgyblion a chyfoethogi eu profiadau dysgu. Gwneir defnydd effeithiol o'r ganolfan hamdden ger safle'r ysgol i ddarparu lle a chyfleusterau ychwanegol gwerthfawr i'r ysgol eu defnyddio.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Ers dechrau ar ei swydd yn 2008, mae'r pennaeth wedi gosod cyfeiriad strategol addas i'r ysgol. Ar y cyd â'i uwch dîm arweinyddiaeth, mae wedi cyfleu ei weledigaeth ar gyfer gwella'r ysgol yn llwyddiannus wrth ddisgyblion, staff a rhieni. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas mewn nifer o feysydd, fel sicrhau gwelliant mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a'r chweched dosbarth, ac o ran darparu cwricwlwm 14-19 ehangach. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar wella perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 na phresenoldeb.

Mae rolau a chyfrifoldebau uwch staff wedi'u diffinio'n addas ac mae cydbwysedd priodol rhyngddynt. Caiff y pennaeth ei gefnogi'n dda gan ei ddirprwy bennaeth a'r tîm arweinyddiaeth estynedig. Gyda'i gilydd, maent yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob aelod o staff. Rhoddir ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae nodau ac amcanion yr ysgol yn glir ac yn rhoi pwyslais addas ar gynnydd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi rhoi nifer o strategaethau priodol ar waith i gryfhau arweinyddiaeth ganol. Mae gan bob aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth gyfrifoldebau rheoli llinell briodol ar gyfer arweinwyr pwnc ac maent yn cynnig cymorth priodol i'w hadrannau. Fodd bynnag, nid yw trefniadau rheoli llinell yn ddigon cadarn ac mae anghysondeb o ran pa mor effeithiol y caiff arweinwyr canol eu dwyn i gyfrif. At hynny, nid yw lleiafrif o arweinwyr canol yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar fynd i'r afael â meysydd pwysig i'w gwella, fel monitro cynnydd disgyblion mewn gwersi neu drwy graffu ar eu gwaith.

Mae cyfarfodydd rheolaidd sy'n cael eu cynnal gan yr uwch dîm rheoli a phenaethiaid adran yn canolbwyntio'n addas ar flaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw cofnodion y cyfarfodydd hyn bob amser yn nodi camau gweithredu dilynol priodol a chyfrifoldebau ar gyfer eu rhoi ar waith.

Mae rheoli perfformiad wedi'i drefnu'n dda. Mae gan bob un o'r staff addysgu targedau priodol sy'n gysylltiedig â chodi safonau yng nghyfnod allweddol 4. Caiff anghenion hyfforddi unigol eu cefnogi gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus addas.

Mae llywodraethwyr yn cael gwybodaeth reolaidd am berfformiad yr ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o berfformiad yr ysgol, ac maent yn herio'r ysgol i wella. Maent yn ymgymryd â'u gwaith trwy ystod gynhwysfawr o bwyllgorau ac

maent wedi sefydlu cysylltiadau addas gyda meysydd pwnc yn yr ysgol. Maent yn darparu cyfeiriad priodol ar gyfer gwaith yr ysgol ac yn gweithredu'n addas fel ffrindiau beirniadol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o brosesau i arfarnu ansawdd ei waith. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad manwl o berfformiad disgyblion mewn arholiadau allanol ac asesiadau athrawon, arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion, yn ogystal ag ymgynghori â disgyblion a rhieni. Mae pob athro'n cyfrannu'n gadarnhaol at y broses hunanarfarnu, ac mae'r corff llywodraethol wedi cynnal arfarniad buddiol o waith yr ysgol hefyd. Mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant dilynol wedi cael effaith gadarnhaol ar rai meysydd fel perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a Chymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi cael digon o effaith ar wella perfformiad mewn meysydd pwysig eto fel trothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn rhoi ystyriaeth fanwl i bob agwedd ar waith yr ysgol, ac mae'n cyflwyno arfarniadau cywir o berfformiad yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn dadansoddi data perfformiad yn dda. Fodd bynnag, nid yw rhai arweinwyr canol yn cysylltu tanberfformiad yn ddigon cryf gydag agweddau ar eu darpariaeth.

Mae cysylltiad clir rhwng adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan a chynllunio gwelliant dilynol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn amlinellu cyfrifoldebau a graddfeydd amser priodol ar gyfer mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, ni chaiff strategaethau ar gyfer ysgogi gwelliant eu diffinio'n ddigon clir ac nid yw'r meini prawf llwyddo yn ddigon manwl gywir na mesuradwy. Mae cynlluniau gwella adrannol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r cynlluniau hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer monitro cynnydd, terfynau amser priodol na meini prawf llwyddo ddigon clir.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae arweinwyr yn cynnal arfarniadau addas o'r cynnydd a wnaed wrth gyfeirio at eu cynlluniau gwella. Fodd bynnag, nid yw adrannau a'u rheolwyr llinell yn monitro cynnydd yn ddigon rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Er bod cynnydd addas wedi'i wneud yn erbyn mwyafrif o'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu diwethaf, mae angen gwella rhai agweddau o hyd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau llwyddiannus, sy'n cynnwys cysylltiadau helaeth ag asiantaethau allanol arbenigol i gefnogi anghenion a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni a gofalwyr, ac mae gan y gymdeithas rhieni ac athrawon rôl weithredol a gwerthfawr o ran trefnu a chefnogi digwyddiadau codi arian yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda dwy ysgol uwchradd arall a'r coleg lleol er mwyn ehangu'r cwricwlwm 14-19 a'r opsiynau dysgu ar gyfer disgyblion. Mae cynllunio

gofalus ar y cyd a hunanarfarnu rheolaidd wedi gwneud y bartneriaeth hon yn hynod effeithiol.

Mae'r cysylltiadau bugeiliol a chwricwlaidd cryf gydag ysgolion cynradd partner yn cyfrannu at y cyfnod pontio effeithiol i ddisgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Mae cyfarfodydd rheolaidd a phrosiectau a gweithgareddau trefnus ar y cyd yn sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino'n gyflym yn yr ysgol uwchradd.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cynhyrchiol gyda darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon er mwyn gwella holl fedrau athrawon perthnasol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r gymuned. Er enghraifft, bob blwyddyn, mae'n trefnu cinio Nadolig ar gyfer yr henoed sy'n cael ei ariannu a'i gefnogi gan fusnesau lleol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio'i staff yn effeithlon, gan wneud defnydd priodol o arbenigedd pynciol athrawon. Mae rheoli perfformiad yn nodi anghenion datblygiad staff yn addas ac yn trefnu darpariaeth briodol i fodloni'r rhain mewn rhaglen o gyrsiau allanol a sesiynau hyfforddiant mewn swydd. Mae'r ysgol wedi sefydlu ychydig o weithgorau athrawon yn ddiweddar i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol priodol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu eu heffaith ar safonau.

Mae bwrsar yr ysgol yn gweithio'n agos â'r pennaeth i lunio cynlluniau cyllideb fanwl sy'n cael eu hystyried gan is-bwyllgor cyllid y corff llywodraethol. Mae gan yr ysgol gynlluniau addas i fynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o ostyngiad a ragfynegir yn niferoedd y disgyblion. Mae penderfyniadau ynghylch gwariant yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau a nodwyd gan yr ysgol, ac mae trefniadau addas ar gyfer monitro gwariant.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosyddion allweddol yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg a chyfartaleddau Cymru gyfan erbyn hyn. Mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn er 2008 ac mae uwchlaw cyfartaledd y teulu a Chymru erbyn hyn. Mae'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg hefyd, ar sail lefelau hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r canlyniadau mewn Saesneg wedi dangos gwelliant er 2009, ond yn 2013, bu gostyngiad yn y ganran, gan olygu bod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg. Yn 2011 a 2012, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf. Bu gostyngiad hefyd yng nghanran y disgyblion yn cyflawni lefel 6 neu'n uwch o gymharu â chanlyniadau 2012. Bu gwelliant mewn Cymraeg Mamiaith ar lefel 5 neu'n uwch yn 2013 a symudodd yr ysgol i fyny o fod yn y 50% isaf i'r 50% uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch wedi gwella hefyd ac mae uwchlaw cyfartaledd y teulu erbyn hyn, a chryn dipyn uwchlaw cyfartaledd yr awdurdod lleol a chyfartaledd Cymru. Mae canran y disgyblion sy'n llwyddo i ennill lefel 5 neu'n uwch mewn mathemateg wedi codi o 87% yn 2012 i 92% yn 2013. Mae hyn yn golygu nawr bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg, ac mae gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 6 neu'n uwch wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2010, llwyddodd 51% o ddisgyblion i gyflawni lefel 6 neu'n uwch, ac yn 2013, cyflawnodd 63% o ddisgyblion lefel 6 neu'n uwch. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae'r ysgol yn perfformio uwchlaw cyfartaledd y teulu a Chymru erbyn hyn. Yn 2011, roedd yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg, ac yn 2012, roedd yn y 50% uchaf. Mae canlyniadau 2013 yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Ar lefel 6 neu'n uwch, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gwella'n sylweddol o gymharu â chanlyniadau 2011, ac mae'n perfformio uwchlaw cyfartaledd teulu erbyn hyn.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, yn dangos tuedd ar i lawr dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi gostwng i fod yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ac mae ei pherfformiad islaw cyfartaledd y teulu erbyn hyn. Mae'r perfformiad hwn islaw'r disgwyliadau wedi'u modelu. Mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd yn dangos tuedd debyg ac mae'r ysgol bellach yn y 25% isaf o ysgolion tebyg, ar ôl bod yn y 50% uchaf yn 2010 a 2011. Mae perfformiad yn nhrothwyau lefel 1 a lefel 2 wedi gostwng hefyd ac mae'r ysgol wedi symud o fod yn y 50% uchaf yn 2011 i fod yn y 25% isaf o ysgolion tebyg erbyn hyn. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn dangos tuedd o ostyngiad dros dair blynedd gan osod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. O gymharu ag ysgolion tebyg, ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 2 yn y chwarter isaf erbyn hyn, ar ôl bod yn y trydydd chwarter yn 2012 ac yn y chwarter uchaf yn 2011. Fodd bynnag, mae safonau mewn Cymraeg mamiaith wedi aros yn y chwarter uchaf am y pedair blynedd diwethaf, o gymharu â pherfformiad cymharol mewn ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim. Mewn mathemateg, mae safonau lefel 2 yn well na chyfartaledd y teulu, er bod yr ysgol yn y 50% isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg ar ôl bod yn y 50% uchaf yn 2010 a 2011. Mae perfformiad ar lefel 2

mewn gwyddoniaeth yn 2013 ymhell islaw cyfartaledd y teulu ac mae’n golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.  Yn y chweched dosbarth, mae canran y disgyblion sy’n cyflawni trothwy Lefel 3 islaw cyfartaleddau’r teulu, yr Awdurdod Lleol a Chymru.

Nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster dros y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, ar gyfer y dangosydd pwnc craidd yn 2013, mae’r bwlch o ran perfformiad rhwng bechgyn a merched yn llai na’r gwahaniaeth cyfartalog rhwng bechgyn a merched yn y teulu, yr Awdurdod Lleol a Chymru.  Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, perfformiodd y merched yn well na’r bechgyn o 35 pwynt canran mewn Saesneg, 26 pwynt canran mewn Cymraeg, 26 pwynt canran mewn mathemateg a 18 pwynt canran mewn gwyddoniaeth.  Mae’r ffigurau hyn gryn dipyn yn uwch na chyfartaleddau’r teulu.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu gostyngiad sylweddol yn y bwlch rhwng disgyblion sy’n hawlio prydau ysgol am ddim a’r rhai nad ydynt yn hawlio yn 2013.  Mae’r dangosydd pwnc craidd yn dangos y bu gwelliant o ryw 30 pwynt canran ym mherfformiad disgyblion sy’n hawlio prydau ysgol am ddim o gymharu â chanlyniadau 2012.  Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn y dangosydd hwn erbyn hyn.  Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion sy’n hawlio prydau ysgol am ddim yn tanberfformio’n sylweddol yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Uwchradd (Cyffredinol)

mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 132 | 67 | 62 | 1 | 2 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 51% | 47% | 1% | 2% | |
| | | 43% | 53% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 132 | 40 | 69 | 18 | 5 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 30% | 52% | 14% | 4% | |
| | | 25% | 58% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 131 | 59 | 62 | 10 | 0 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 45% | 47% | 8% | 0% | |
| | | 37% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 130 | 28 | 82 | 18 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 22% | 63% | 14% | 2% | |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 132 | 68 | 56 | 8 | 0 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 52% | 42% | 6% | 0% | |
| | | 45% | 45% | 8% | 1% | |
| I am doing well at school | 129 | 32 | 93 | 4 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 25% | 72% | 3% | 0% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 129 | 52 | 72 | 5 | 0 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 40% | 56% | 4% | 0% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 132 | 23 | 80 | 25 | 4 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 17% | 61% | 19% | 3% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 132 | 57 | 58 | 14 | 3 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 43% | 44% | 11% | 2% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my | 132 | 20 | 74 | 33 | 5 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac |
| | | 15% | 56% | 25% | 4% | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| work done | | 10% | 57% | 27% | 6% | rwy’n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 132 | 42 | 52 | 29 | 9 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 32% | 39% | 22% | 7% | |
| | | 28% | 51% | 17% | 5% | |
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 129 | 14 | 77 | 31 | 7 | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| | | 11% | 60% | 24% | 5% | |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 131 | 49 | 80 | 1 | 1 | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 37% | 61% | 1% | 1% | |
| | | 33% | 61% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 132 | 46 | 68 | 17 | 1 | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 35% | 52% | 13% | 1% | |
| | | 36% | 54% | 8% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 130 | 53 | 60 | 12 | 5 | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| | | 41% | 46% | 9% | 4% | |
| | | 36% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 128 | 41 | 74 | 12 | 1 | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 32% | 58% | 9% | 1% | |
| | | 35% | 57% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 51 | 11 | 30 | 9 | 1 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 22% | 59% | 18% | 2% | |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 24 | 7 | 10 | 7 | 0 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 29% | 42% | 29% | 0% | |
| | | 27% | 50% | 16% | 7% | |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 106 | 44<br>42% | 58<br>55% | 4<br>4% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 42% | 51% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 104 | 46<br>44% | 54<br>52% | 3<br>3% | 1<br>1% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 107 | 49<br>46% | 55<br>51% | 2<br>2% | 0<br>0% | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 107 | 44<br>41% | 54<br>50% | 8<br>7% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 44% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 106 | 26<br>25% | 68<br>64% | 7<br>7% | 1<br>1% | 4 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 21% | 55% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 103 | 33<br>32% | 60<br>58% | 7<br>7% | 1<br>1% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 33% | 58% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 107 | 60<br>56% | 45<br>42% | 2<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 50% | 46% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 105 | 35<br>33% | 57<br>54% | 7<br>7% | 2<br>2% | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 54% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 106 | 38<br>36% | 49<br>46% | 15<br>14% | 2<br>2% | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 32% | 49% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 106 | 38<br>36% | 54<br>51% | 9<br>8% | 1<br>1% | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 33% | 54% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 107 | 57<br>53% | 48<br>45% | 2<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 40% | 53% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional | 103 | 40<br>39% | 42<br>41% | 8<br>8% | 2<br>2% | 11 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| support in relation to any particular individual needs'. | | 31% | 46% | 7% | 2% | | ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 106 | 41 | 48 | 13 | 2 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 39% | 45% | 12% | 2% | | |
| | | 33% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 107 | 48 | 51 | 6 | 2 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 45% | 48% | 6% | 2% | | |
| | | 41% | 49% | 6% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 105 | 28 | 66 | 5 | 1 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 27% | 63% | 5% | 1% | | |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 103 | 39 | 55 | 5 | 1 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 38% | 53% | 5% | 1% | | |
| | | 35% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 105 | 28 | 41 | 13 | 1 | 22 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 27% | 39% | 12% | 1% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 106 | 27 | 46 | 25 | 2 | 6 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 25% | 43% | 24% | 2% | | |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 106 | 40 | 58 | 3 | 2 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 38% | 55% | 3% | 2% | | |
| | | 40% | 49% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ray Owen | Arolygydd Cofnodol |
| Kevin Adams | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Rhian Wyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Anita Rees | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sian Pugh | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |